



Cymru Sero Net | Modiwl 4 | Sero Net, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r modiwl hwn am yr argyfwng bioamrywiaeth/ecolegol. Mae gweithgareddau dynol wedi achosi newidiadau sylweddol i ecosystemau drwy'r byd i gyd ac mae rhywogaethau wedi bod darford yn gyflymach yn y 50 mlynedd diwethaf nag ar unrhyw adeg mewn hanes dynol. Heddiw, o'r cyfanswm o rywogaethau anifeiliaid a phlanigion yn y byd – sydd wedi ei amcangyfrif fel 8.7 miliwn – mae tua miliwn o rywogaethau eisoes dan fygythiad o ddarfodiad..

Ond, mae cysylltiad annatod rhwng y golled hon a'r argyfwng hinsawdd ac felly bydd helpu i ymdrin â cholli bioamrywiaeth o fudd hefyd gyda'r gwaith o ymdrin â newid hinsawdd. Er mai newid hinsawdd yw un o brif achosion colli bioamrywiaeth, nid dyma'r unig achos; mae'r ffaith bod ecosystemau'n cael eu dinistrio a'u darnio yn amharu ar y gallu i ostwng a chadw rheolaeth ar allyriadau nwy tŷ gwydr. Mae hyn yn esbonio pam mae'n rhaid ymdrin â'r ddau argyfwng â'i gilydd, fel bod pobl a natur yn gallu ffynnu ar yr un pryd.

Does dim lle yn unman yn y byd sydd heb weld canlyniadau dinistriol y newid yn y defnydd tir ar fioamrywiaeth a'r byd naturiol, ond mae pobl yn gweithio i newid hyn ac mae rhagor o gamau y gallwn eu cymryd yn awr i atal a gwyrddroi'r effeithiau hyn. Bydd y modiwl hwn yn eich helpu i astudio a deall yr argyfwng bioamrywiaeth a gweld y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth, y byd naturiol, newid hinsawdd a sero net. Byddwch yn dysgu am brif achosion ac effeithiau dinistriad yr ecosystem a cholli bioamrywiaeth a rhai o'r ymatebion sy'n digwydd i helpu i wyrddroi'r difrod sydd wedi digwydd yn barod, ynghyd â diogelu, gwella a gofalu am yr ardaloedd lle mae natur yn ffynnu. Yn olaf, cewch gyfle i feddwl am y pethau rydych wedi eu dysgu er mwyn i chi allu gweithredu hefyd.

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar y wybodaeth y byddwch wedi'i datblygu o fodiwl 1 (Sero Net a Newid Hinsawdd: Cyflwyniad), modiwl 2 (Ynni Amgen) a modiwl 3 (Ffordd Wyrddach o Fyw).

Deilliannau Dysgu:

Erbyn diwedd y modiwl hwn byddwch yn gallu:

1. Deall rhai termau sylfaenol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, pam mae bioamrywiaeth yn hanfodol bwysig a sut mae'n gysylltiedig â newid hinsawdd a sero net.
2. Esbonio rhai o'r prif bethau sy'n achosi colli bioamrywiaeth
3. Deall a thrafod effeithiau colli bioamrywiaeth a pham mae hyn mor bwysig
4. Amlinellu rhai o'r ymatebion sy'n digwydd yn fyd-eang ac yng Nghymru
5. Disgrifio a chynnig camau gweithredu personol y gallwch eu cymryd er mwyn helpu i ymdrin â'r argyfwng ecolegol

Mae'r modiwl hwn yn defnyddio cynnwys fideo gan ddarparwyr trydydd parti. Mae'r holl gynnwys fideo wedi'i werthuso a'i bennu i fod yn briodol ar gyfer y modiwl ar adeg cynllunio'r modiwl. Nid yw Llywodraeth Cymru na'r partneriaid sy'n cyflwyno'r modiwl yn gyfrifol am unrhyw fideos dilynol a allai ymddangos gan ddefnyddio'r nodweddion 'gwyllo nesaf' neu restr chwarae ar wefannau trydydd parti.

Bioamrywiaeth ac ecosystemau. Beth yw'r argyfwng bioamrywiaeth?

Beth sy'n achosi'r argyfwng bioamrywiaeth?

Effeithiau colli bioamrywiaeth a sero net

Ymatebion allweddol

O ddysgu i weithredu

Bioamrywiaeth ac ecosystemau. Beth yw'r argyfwng bioamrywiaeth?


Amcanion Dysgu

- Deall y derminoleg sylfaenol ym maes bioamrywiaeth ecosystemau a'r amgylchedd naturiol
- Deall pam mae bioamrywiaeth yn bwysig
- Cydnabod bod yr argyfwng bioamrywiaeth yn rhoi iechyd pobl ac iechyd y blaned mewn peryg
- Deall y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth, carbon a newid hinsawdd

Mae bioamrywiaeth, sef yr amrywiaeth unigryw o fywyd sydd ar ein planed, yn fwy na dim ond planhigion ac anifeiliaid. Mae'n gwbl hanfodol i'n bodolaeth ni.

Pan fyddwch yn dechrau tarfu ar yr amgylchedd naturiol a'r ecosystemau, mae popeth yn dechrau methu – hinsawdd, cadwynau bwyd, tywydd, yr economi, ein ffordd o fyw a'n lle yn yr amgylchedd naturiol.

Ond beth olygwn ni pan ddefnyddiwn y termau 'bioamrywiaeth' ac 'ecosystem', a beth yw'r 'byd naturiol' yng nghyd-destun y cwrs hwn?






Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at yr holl rywogaethau byw ar y Ddaear, yn cynnwys planhigion, anifeiliaid, bacteria, a ffyngau. Dydy pobl ddim wedi canfod pob un – mae nifer o rywogaethau heb eu canfod eto – ac eto mae llawer ohonynt dan fygythiad o ddod i ben oherwydd




Ecosystem yw ardal ddaearyddol lle mae planhigion, anifeiliaid ac organebau eraill, yn ogystal â thywydd a thirweddau, yn cydweithio i ffurfio swigen o fywyd. Er enghraifft pwll, dŵl a jyngl.



Yr amgylchedd naturiol yw lle mae popeth byw ac anfyw yn digwydd yn naturiol. Mae hyn yn cyferbynnu â'r amgylchedd adeiledig sy'n cyfeirio at bob agwedd o'n hamgylchoedd sy'n cael eu hadeiladu gan fodau dynol (tai, parciau, ffyrdd ac ati) Mae'r amgylchedd naturiol



yn cwmpasu rhyngweithiad pob



Ffynhonnell Cydnabyddiaeth: [Why is Biodiversity Important?](#) – with Sir David Attenborough by The Royal Society is licensed under [CC BY](#).

Diraddiad

Yr hyn sy'n achosi diraddiad i fioamrywiaeth y Ddaear yw gweithgareddau dynol fel trefoli, llygredd, datgoedwigo, amaethyddiaeth ddwys, tirlenwi, gwastraff ac ymddygiad y defnyddiwr. O ganlyniad i ffactorau fel hyn, mae cyfradd darfodiad y rhywogaethau'n cyflymu. Mae mwy o rywogaethau wedi eu bygwth â darfodiad erbyn hyn nag erioed o'r blaen mewn hanes dynol.

Wyddech chi?

Mae gwyddonwyr wedi amcangyfrif bod tua 8.7 miliwn o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn bodoli. Ond, dim ond tua 1.2 miliwn o rywogaethau sydd wedi cael eu cofnodi a'u disgrifio hyd yn hyn. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n bryfed. Mae hyn yn golygu bod miliynau o organebau eraill yn parhau'n ddirgelwch llwyr.



Wyddech chi?

Yn ôl yr amcangyfrifon, mae mwy na miliwn o rywogaethau mewn perygl o ddarfodiad ar hyn o bryd oherwydd gweithgareddau dynol, ac mae rhywogaethau'n diflannu rhwng 50 a 100 o weithiau'n gyflymach na'r gyfradd naturiol.

Gwasanaethau'r ecosystem:

Gwasanaethau'r Ecosystem yw'r cyfraniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae ecosystemau'n eu gwneud sydd o les i'r ddynoliaeth ac o fudd i ansawdd ein bywyd. Mae'r aer a anadlwch, y dŵr a yfwch a'r bwyd a fwytwch oll yn dibynnu yn y pendraw ar fioamrywiaeth.

- Popeth bron iawn a wnawn ac a ddefnyddiwn – meddyliwch am y cotwm ar gyfer eich dillad neu ledr i'ch esgidiau, y pren ar gyfer y dodrefn a'r offerynnau cerddorol, y pigment i artistiaid, y priddoedd y mae llawer o bobl yn eu defnyddio i adeiladu eu cartrefi; meddyliwch yn fyd-eang
- Ein meddyginiaethau
- Mae'n diogelu yn erbyn llygredd aer
- Mae'n darparu amddiffyniad rhag llifogydd ac yn rheoli erydiad
- Mae'n cymryd miliynau lawer o dunelli o garbon deuocsid i mewn ac yn ei storio



Natur a lles

Mae natur a bioamrywiaeth yn darparu manau hardd ar gyfer chwaraeon, hamdden, lles corfforol a meddyliol, twristiaeth, a

mannau o gysur ac ymlacio. Meddylwch am gerdded, beicio mynydd, canŵio, gwersylla, ffotograffiaeth, bordhwylio, hwylio, garddio, pysgota, ysgol goedwig, byw yn y gwylt a llawer iawn mwy.

Cnydau

Mae ein cnydau'n dibynnu ar beillio gan bryfed a'r prosesau biolegol cymhleth sy'n creu pridd.

“ Mae bron i 9 allan o bob 10 planhigyn – yn cynnwys y rhan fwyaf o'r amrywogaethau cnydau – yn dibynnu ar beillio, yn enwedig gan bryfed. Mae'n anodd rhoi ffigur union gywir ar hyn ond, yn ôl yr amcangyfrifon, mae'r gwenyn yn darparu gwerth economaidd o tua £146 biliwn y flwyddyn – a dyna'r gwenyn yn unig.

Yn ei hanfod, mae'n amhosibl cyfrifo gwir werth ariannol natur a bioamrywiaeth. Ond mae'r gost o golli ein byd naturiol yn wirioneddol enfawr.

Gwytnwch

Mae ecosystemau iach sy'n gweithio'n iawn yn rhoi diogelwch a gwytnwch i ni. Ac wrth wynebu'r newid hinsawdd, ecosystemau a bioamrywiaeth, nhw yw ein cyfaill pennaf.

Mae biomas enfawr yr holl bethau byw'n gweithio fel suddfan carbon anferth, yn amsugno nwyon tŷ gwydr, ac yn arbennig garbon deuocsid, drwy ffotosynthesis. Fel cynhyrchwyr cynradd, planhigion yw sylfaen y we fwyd ar gyfer pob bywyd ar y ddaear bron iawn, yn cynnwys pobl.



Cwblhewch y cynnwys uchod cyn symud ymlaen.

Beth sy'n achosi'r argyfwng bioamrywiaeth?

Amcanion Dysgu

- Deall prif achosion colli bioamrywiaeth
- Deall effaith y newid yn y waelodlin ar yr argyfwng bioamrywiaeth

Y prif resymau am golli bioamrywiaeth


Mae'r ffaith bod y galw am adnoddau naturiol yn cynyddu oherwydd maint y boblogaeth fyd-eang a'r ffaith ein bod ni i gyd yn defnyddio mwy o bethau, a'r ffaith bod patrymau prynwriaeth yn newid, oll yn rhoi pwysau enfawr ar gynefinoedd naturiol.

Effaith y pwysau hwn yw diraddiad difrifol yn ecosystemau a bioamrywiaeth y ddaear.





Mae newidiadau mewn defnydd tir (e.e. datgoedwigo, ffermio dwys, ffermio ungnwd a threfoli) yn gyrru amcangyfrif o 30% o ddirywiad bioamrywiaeth yn fyd-eang.



“ Oeddech chi'n gwybod mai dim ond 29% o wyneb y ddaear sy'n dir? Mae'r gweddill yn ddŵr. A dim ond ar 71% o'r tir y mae'n bosibl byw! Ac o'r tir yma, mae bron ei hanner yn dir amaethyddol. Ar y tir amaethyddol hwn, mae tua 77% yn cael ei ddefnyddio ar gyfer da byw, cig a llaeth a thua 23% ar gyfer cnydau.

Ecsbloetio gormodol

Mae gorbysgota, gorchela a gorgynaeafu am bethau fel bwyd, a phren yn gyrru tua 20% o golledion bioamrywiaeth.

(i) Wyddech chi?

Oeddech chi'n gwybod bod mwy na 40% o'r rhywogaethau pryfed dan fygythiad o ddod i ben? Y prif beth sy'n achosi hyn yw eu bod nhw'n colli eu cynefinoedd o ganlyniad i'r amaethu dwys a'r defnydd mawr o gemegau amaethyddol, ond mae rhywogaethau eraill sy'n ymledu, a newid hinsawdd, yn gyfrifol hefyd. Mae mwy na 95% o'r holl anifeiliaid yn infertebratau – dyma'r grŵp sy'n cadw'r byd yn gweithio. Heb bryfed, ni fyddai cnydau i ni nac i'n da byw eu bwyta. Byddai'r cylchdro maetholion, fel carbon a nitrogen, drwy ecosystemau'r byd yn stopio. Ac mae'r biomas enfawr o bryfed yn fwyd i lawer o rywogaethau eraill hefyd.

Gorbysgota

Gorbysgota yw un o achosion mwyaf arwyddocaol y dirywiad ym mhoblogaethau bywyd gwylt y cefnforoedd. Mae hyn yn digwydd pan mae llongau pysgota'n dal pysgod ar gyfradd gyflymach nag y mae'r stociau'n gallu ail-lenwi.


(i) Wyddech chi?

Mae nifer y stociau sydd wedi cael eu gorbysgota'n fyd-eang wedi treblu mewn hanner canrif a, heddiw, mae traean o bysgodfeydd y byd sy'n cael eu hasesu wedi cael eu gwthio y tu hwnt i'w galluoedd biolegol, yn ôl Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig.

Newid hinsawdd

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r pethau mwyaf arwyddocaol ac uniongyrchol i achosi colli bioamrywiaeth. Mae cynnydd yn y tymereddau'n newid yr ecosystemau drwy newid beth sy'n gallu tyfu a byw ynddyn nhw. Mae'r Gymdeithas Frenhinol yn nodi bod tystiolaeth i'w chael yn barod i awgrymu bod gostyngiadau mewn anwedd dŵr yn yr atmosffer ers yr 1990au wedi achosi i 59% o'r ardaloedd gyda llystyfiant ddangos brownio amlwg a gostyngiad yn y cyfraddau twf drwy'r byd i gyd.

Yn ogystal â hynny, mae cynnydd yn nymheredd y cefnforoedd yn effeithio ar organebau morol. Mae'r cwrelau'n arbennig o agored i niwed oherwydd y cynnydd mewn tymheredd ac mae'r asidio yn y cefnfor yn gallu ei gwneud yn anoddach i bysgod cregyn a chwrelau yn y cefnfor uwch ffurfio cregyn a sgerbydau caled.



Ffynhonnell Cydnabyddiaeth: [Human Impacts on Biodiversity](#) by Fuse School is licensed under [CC BY](#).

Y Syndrom Gwaelodlin Newidiol

Syndrom Gwaelodlin Newidiol yw 'newid graddol yn y normau sy'n dderbyniol yng nghyflwr yr amgylchedd naturiol oherwydd

diffyg profiad, cof a/neu wybodaeth am ei gyflwr yn y gorffennol'.

Mae'r hyn rydyn ni'n ei ystyried yn amgylchedd 'iach sy'n gweithio'n iawn' yn awr yn wahanol iawn i'r hyn y byddai cenedlaethau'r gorffennol yn eu hystyried yn amgylchedd sy'n 'iach ac yn gweithio'n iawn'. Bydden nhw'n ystyried bod yr amgylchedd presennol mewn cyflwr wedi diraddio.

Yn yr un modd, bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ystyried bod eu profiad nhw'n 'iach ac yn gweithio'n iawn' o'i gymharu â'ch profiad chi ar hyn o bryd.

Y rheswm am hyn yw nad oes gan y genhedlaeth bresennol yr atgofion, yr wybodaeth na'r profiad o gyflwr yr amgylchedd yn y gorffennol felly maen nhw'n methu amgyffred faint mae eu hamgylchedd wedi newid. Maen nhw'n ei gymharu â'u gwaelodlin 'normal' eu hunain ac nid â gwaelodlinau hanesyddol.

Ond, trwy ddysgu am gollu bioamrywiaeth a helpu i wyrdroi'r patrwm yma, gall y cenedlaethau presennol, a rhai'r dyfodol, greu profiad newydd sydd wedi ei seilio ar fioamrywiaeth sy'n fwy toreithiog.

Gwirio Gwybodaeth

Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio ar yr holl rywogaethau anifeiliaid ar y Ddaear

Gwir

Anwir

SUBMIT

Pa rai o'r datganiadau hyn sy'n gywir?

- Mae trefoli yn un o achosion colli bioamrywiaeth
- Mae llygredd yn un o achosion colli bioamrywiaeth
- Mae datgoedwigo'n un o achosion colli bioamrywiaeth
- Mae amaethyddiaeth ddwys yn un o achosion colli bioamrywiaeth
- Mae ymddygiad y defnyddwyr yn un o achosion colli bioamrywiaeth
- Yr uchod i gyd

SUBMIT

Pa rai o'r datganiadau hyn sy'n gywir?

- Pureiddio'r aer yw un o wasanaethau'r ecosystem
- Rheoli llifogydd yw un o wasanaethau'r ecosystem
- Peillio cnydau yw un o wasanaethau'r ecosystem
- Yr uchod i gyd

SUBMIT

Pa rai o'r datganiadau hyn sy'n gywir?

- Mae dewisiadau'r defnyddwyr yn un o achosion colli bioamrywiaeth
- Mae gorbysgota'n un o achosion colli bioamrywiaeth

Nid yw newid hinsawdd yn un o achosion colli bioamrywiaeth

Mae ffermio dwys yn un o achosion colli bioamrywiaeth

SUBMIT

Gallai gwahanol genedlaethau ystyried bod yr amgylchedd yn iach ac yn gweithio'n iawn, er bod bioamrywiaeth wedi dirywio o bosib

Gwir

Anwir

SUBMIT



Cwblhewch y cynnwys uchod cyn symud ymlaen.

Effeithiau colli bioamrywiaeth a sero net

Amcanion Dysgu

- Deall sut mae colli bioamrywiaeth ac ecosystemau'n effeithio ar iechyd y ddynoliaeth, yr economi a'r blaned, yn cynnwys newid hinsawdd
- Deall bod yr argyfwng hinsawdd wedi ei gysylltu'n ddwfn â'r argyfwng bioamrywiaeth

Pan fyddwn yn colli ecosystemau a bioamrywiaeth mae'n cael effaith enfawr ar swyddi ac ar yr economi.



Yn ôl yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN), amcangyfrifir bod gwerth ariannol nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan ecosystemau tua £25 triliwn y flwyddyn.

Gadewch i ni ysgrifennu'r seroau i gyd fel eich bod yn gweld am beth rydyn ni'n siarad go iawn:

£25,000,000,000,000

Mae tua 1.2 biliwn o swyddi yn fyd-eang mewn sectorau fel ffermio, pysgodfeydd, coedwigaeth a thwristiaeth. Maen nhw i gyd yn ddibynnol ar gael ecosystemau iach a chynaliadwy sydd wedi eu rheoli'n effeithiol.

Mae tua hanner Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) cyfan y byd yn dibynnu ar natur mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Wyddech chi?

Oeddech chi'n gwybod bod twristiaeth sydd wedi ei seilio ar natur yn Affrica yn cynhyrchu tua'r un maint o arian ag y mae ffermio, coedwigaeth a physgodfeydd ar y cyd?

Mae adroddiad o'r enw 'dyfodol natur a busnes' a ysgrifennwyd gan Fforwm Economaidd y Byd yn awgrymu y gallai rhoi natur yn gyntaf greu 395 miliwn o swyddi newydd erbyn 2030 !!

Amddiffyn Rhag Llifogydd

Heb i ni gael atebion naturiol neu atebion wedi eu seilio ar natur, bydd llifogydd yn parhau i achosi dinistr er bod arian enfawr yn cael ei fuddsoddi mewn peirianeg 'gwneud' ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd.



Mae llifogydd eisoes wedi achosi dros £769 biliwn o golledion yn fyd-eang yn barod ers 1980, ac mae'n edrych yn debyg y bydd y sefyllfa'n gwaethgu os na fyddwn yn cymryd camau i atal hynny. Gallai nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio'n fyd-eang gan lifogydd sylweddol ddyblu erbyn 2030. Dywedodd Sefydliad Adnoddau'r Byd bod ei raglen rhagolygon Aqueduct Floods yn dangos y bydd 147 miliwn o bobl y flwyddyn yn cael eu heffeithio gan lifogydd ar hyd afonydd ac mewn ardaloedd arfordirol o fewn 10 mlynedd, o'i gymharu â 72 miliwn yn 2010.

Mae'r llifogydd ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2019, a cholledion mewn cysylltiad â gwyntoedd o stormydd Ciara, Dennis a Jorge ym mis Chwefror 2020 wedi costio tua £410 miliwn i ddiwydiant yswiriant y DU, yn ychwanegol at y dinistr i fywydau a bywoliaeth pobl. Ond mae gan natur yr atebion:

A range of habitats or habitat features help to hold water in the landscape, including:

1

Mae coedwigoedd, coed a gwrychoedd yn tarfu ar y glaw sy'n disgyn fel ei fod yn taro'r ddaear yn llai grymus ac nid yw'n ffoi mor hawdd. Maen nhw hefyd yn cymryd dŵr i mewn ar gyfer tyfu, gan adael i rywfaint anweddu yn ôl i'r atmosffer, ond yn bwysicach na hynny mae eu systemau gwreiddiau'n helpu'r dŵr i dreiddio i mewn i'r pridd, gan ostwng maint y dŵr sy'n ffoi yn sylweddol.

2

Mae pyllau, cronfeydd dŵr, llynnoedd, pyllau bas, gwlyptiroedd a phantiau'n casglu dŵr ac yn ei ddal yn ystod cyfnodau gwlyb, gan ei ryddhau'n araf yn ystod cyfnodau sych.

3

Mawnogydd, sydd â migwyn. Mae'r mwsogl hwn yn gallu dal ugain gwaith ei bwysau mewn dŵr. Mae mawnogydd hefyd yn gynefinoedd arbennig ac yn storfeydd carbon enfawr.

4

Glaswelltir gwlyb: Mae glaswelltir garw sypiog yn eithriadol o effeithiol am storio dŵr. Bydd priddoedd noeth yn caniatáu i ddŵr ffoi oddi ar y tir yn llawer haws.

Bwyd

Mae bywyd gwyllt yn hanfodol mewn ffermio – gallai colli gwasanaethau'r gwenyn i'r ecosystem olygu bod £690 miliwn yn cael ei golli bob blwyddyn, ac mae hynny heb ystyried yr holl rywogaethau eraill. Mae tri chwarter o gnydau bwyd y DU yn dibynnu ar beillwyr ac, hebddyn nhw, ni fyddai gennym gymaint o'r bwyd a'r cynhyrchion rydyn ni'n eu mwynhau.

i Wyddech chi?

Wyddoch chi bod 50% yn fwy o blanhigion, pryfed ac adar i'w cael ar gyfartaledd ar ffermydd organig?

Efallai y bydd yn eich synnu ond nid yw ffermydd diwydiannol yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o fwyd y byd mewn gwirionedd.

Mae yna tua 570 miliwn o ffermydd ledled y byd gyda mwy na

Mae amaethyddiaeth ddwys yn un o achosion mawr y colli bioamrywiaeth. Mae defnyddio cemegau i ladd plâu, pryfed a molysgiaid, a hefyd y gwrtaith, erydiad y pridd a

90% yn cael eu rhedeg gan unigolyn neu deulu. Mae'r rhain yn dibynnu'n bennaf ar lafur teulu ac maen nhw'n cynhyrchu tua 80% o fwyd y byd.

Fodd bynnag, mae ffermio dwys a hyd yn oed rhai cynhyrchwyr llai yn dal i ddefnyddio agrogemegau.

chlirio coedwigoedd, oll yn cyfrannu at golli ecosystemau a bioamrywiaeth.

Mae ein priddoedd yn gartref i chwarter rhywogaethau'r ddaear. Yn wir, gall un gram o bridd ddal hyd at 10 biliwn o ficro-organebau. Yn anffodus, mae tua hanner y plaleiddiaid sy'n cael eu defnyddio yn y DU yn lladd ffyngau hefyd, a gall y rhain niweidio'r bywyd tanddaearol hwn, ac iechyd ein priddoedd.

Wyddech chi?

Oeddech chi'n gwybod bod disgwyl i gynhyrchiad bwyd o amgylch y byd gynyddu o 50% mewn 30 mlynedd er mwyn cynnal poblogaeth fyd-eang sydd, yn ôl y rhagolygon, yn mynd i gynyddu i 10 biliwn erbyn 2050?

Newid hinsawdd

Roedd adroddiad a luniwyd gan Natural England yn 2021 yn dangos sut mae'r amgylchedd naturiol yn chwarae rôl hanfodol mewn ymdrin â'r argyfwng hinsawdd am fod ecosystemau iach yn cymryd ac yn storio maint sylweddol o garbon mewn priddoedd, gwaddodion a llystyfiant.

O ganlyniad uniongyrchol i ddinistr a diraddiad y cynefinoedd naturiol, mae'r carbon sy'n cael ei storio ynddyn nhw'n cael ei ryddhau, ac mae hynny'n cael effaith negyddol ar y newid hinsawdd.

Ond, y cynefinoedd mawndir sy'n dal y storfeydd carbon mwyaf o'r holl gynefinoedd. Mae afonydd, llynnoedd a gwlyptiroedd yn elfen bwysig o'r gylchred garbon, ynghyd â'r cynefinoedd arfordirol a morol a'r morfeydd heli.

Mae'r adroddiad yn canfod bod y cyfraddau storio carbon mwyaf yn y coedwigoedd a bod cynefinoedd agored fel rhostiroedd a glaswelltiroedd lled naturiol yn cymryd ac yn storio mwy o garbon na thirweddau amaethyddol modern.

Felly, y tro nesaf y byddwch chi allan yn yr amgylchedd naturiol, cymerwch ennyd i feddwl am holl fuddion anhygoel natur sy'n digwydd o'ch cwmpas, a hynny drwy'r amser ... ac yn rhad ac am ddim.

Gwirio Gwybodaeth

Mae'r argyfwng hinsawdd ac argyfyngau bioamrywiaeth yn ddau fater cwbl ar wahân i fynd i'r afael â nhw

Gwir

Anwir

SUBMIT

Pa rai o'r datganiadau hyn sy'n gywir?

Mae tua hanner Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) cyfan y byd yn ddibynnol ar natur i ryw raddau.

Mae natur yn darparu amddiffyniad yn erbyn llifogydd.

Mae priddoedd iach yn bwysig ond dydyn nhw ddim yn cael unrhyw ddylanwad ar y gwaith o ymdrin â newid hinsawdd.

Mae natur yn hanfodol ar gyfer peillio nifer o'n bwydydd.

Mae natur yn hanfodol i helpu i ymdrin â newid hinsawdd.

SUBMIT



Cwblhewch y cynnwys uchod cyn symud ymlaen.

Ymatebion allweddol

Amcanion Dysgu

- Deall yr ymateb byd-eang i'r argyfwng bioamrywiaeth.
- Deall ymateb Cymru i'r argyfwng bioamrywiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nid oes modd gwahanu'r argyfwng hinsawdd oddi wrth y gwaith o addasu a gwella sefyllfa'r argyfwng ecolegol/bioamrywiaeth.

Mae'n rhaid i'r dull a ddefnyddiwn i atal a gwyrddroi'r colli cynefinoedd/ecosystemau a bioamrywiaeth gynnwys cael perthynas newydd a gwell â'r tir er mwyn cefnogi ffyrdd gwell o weithio a byw.

Nodau byd-eang

Mae Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030, sydd wedi ei mabwysiadu gan holl Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig, yn darparu glasbrint i bawb ei rannu ar gyfer sicrhau heddwch a ffyniant i bobl ac i'r blaned, gyda 17 nod penodol. Mae'r agenda hon yn alwad brys i'r gwledydd i gyd weithredu, yn cynnwys mynd i'r afael â'r newid hinsawdd a'r colli bioamrywiaeth.

Cymru a'r Deyrnas Unedig

Yng Nghymru, mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU yn gofyn bod Gweinidogion Cymru'n cynhyrchu adroddiadau am amcanion a chymau gweithredu Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas ag effeithiau'r newid hinsawdd.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru, tra bo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi ei llunio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddwy Ddeddf yn cynnwys rhannau pwysig am ymdrin â'r argyfwng ecolegol a hefyd yr argyfwng hinsawdd. Mae'r gydnabyddiaeth hon i'r cysylltiadau dwfn rhwng tir, ecosystemau, bioamrywiaeth a newid hinsawdd/sero net yn hanfodol bwysig.

Dyma rai o amcanion allweddol Cynllun Ymaddasu Llywodraeth Cymru:

- 1 Gostwng y defnydd o blaeiddiaid
- 2 Tyfu mwy o goetir
- 3 Creu mwy o leoedd agored fel parciau, caeau chwarae, rhandiroedd, gerddi preifat, glaswelltir, pyllau a choedwigoedd i greu amgylchedd sy'n dda i les pobl yn ogystal â'r hinsawdd.

Risg i fusnesau a gwytnwch

Gall busnesau fanteisio ar y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (TWIG) sy'n rhan o'r rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru. Bydd yn rhoi cymorth ariannol i bobl greu coetiroedd newydd ac i wneud gwelliannau i goetiroedd presennol. Mae yna rai enghreifftiau gwych o sefydliadau yn gweithredu megis yr arferion ffermio ac ailwylltio yn Wild Ken Hill

(<https://wildkenhill.co.uk/our-approach/>)

Enghraifft arall yw prosiect Cairngorms Connect yr Alban sy'n creu'r bartneriaeth fwyaf ym Mhrydain i adfer cynefinoedd dros 60,000 hectar o dir, sy'n faint enfawr. Bydd y prosiect yn adfer cynefinoedd a phrosesau naturiol er mwyn rhoi cyfle i brosesau ecolegol a chyfalaf naturiol wella, i adael i wasanaethau'r ecosystem gynyddu ac i boblogaethau o rywogaethau allweddol dyfu.

Yng Nghymru, nod y prosiect Coetiroedd Cenedlaethol yw ffurfio rhwydwaith cysylltiedig o goetiroedd drwy Gymru gyfan. Bydd hyn yn dod â buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae lluo brosiectau eraill hefyd yn digwydd ar draws y byd, ar raddfa fawr a bach, ac maen nhw i gyd yn hanfodol bwysig i ymdrin â'r argyfwng bioamrywiaeth ac i liniaru'r newid hinsawdd ar yr un pryd.



Cwblhewch y cynnwys uchod cyn symud ymlaen.

O ddysgu i weithredu

Amcanion Dysgu

- Cydnabod mor bwerus yw gweithredu personol a gweithredu ar y cyd i wneud pethau cadarnhaol dros natur.
- Gwerthfawrogi eich potensial personol i siapio dyfodol cadarnhaol i bawb.
- Cynllunio camau gweithredu y gallwch eu cymryd yn awr i helpu i ofalu am fioamrywiaeth a'i gwella.

Iawn, eich tro chi yw hi nawr.

Mae cyfle i chi wneud cyfraniad rhagorol i ymdrin â'r argyfwng ecolegol ac, ar yr un pryd, i chwarae eich rhan chi i helpu i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd.

Mae'r gallu gennych chi i helpu i newid y dyfodol drwy eich dewis yrfa a thrwy'r camau gweithredu personol yr ydych yn dewis eu cymryd. Mae'r gallu gennych chi i ddod â newidiadau sy'n cyffwrdd bywydau'r bobl o'ch cwmpas ac sy'n gwneud y byd yn lle llawer gwell i bawb.

Cliciwch isod i lawrlwytho eich cerdyn addewid...



netzero_pledge.pdf

682 KB



Cymerwch ychydig funudau i ystyried beth rydych wedi ei ddysgu a sut mae wedi gwneud i chi deimlo – ysgrifennwch ychydig o nodiadau byr.

Nawr, ysgrifennwch eich datganiad/addewid personolpa gam neu gamau gweithredu wnewch chi eu cymryd? Ceisiwch fod yn benodol.

Dyma rai pethau i'ch helpu:

- Nodwch benderfyniadau prynu personol a'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) y gallai hyn eu cael ar y byd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth, yr amgylchedd ehangach a phobl ar draws y byd.
- Nodwch a chymerwch gamau gweithredu sy'n helpu i atal a gwyrddroi'r colli bioamrywiaeth.
- Helpwch i roi gwybod i bobl eraill am yr hyn rydych wedi ei ddysgu a'u hannog nhw i weithredu hefyd.
- Dewch i ddeall yn well pa gyfleoedd sydd ar gael drwy gael gyrfa fwy gwyrdd.

Rwy'n siwr bod gennych eich syniadau eich hun.



Swyddog Cadwraeth Amgylcheddol

MWY O WYBODAETH

Gwyddonydd Pridd

MWY O WYBODAETH

Biolegydd Morol

MWY O WYBODAETH

Gwyddonydd Ymchwil Amaethyddol

MWY O WYBODAETH

Dolenni defnyddiol ac adnoddau:

- [Carbon Storage and Sequestration by Habitat 2021 \(Cipio a Storio Carbon yn ôl Cynefin 2021\)](#)
- [International Union for the Conservation of Nature \(IUCN\) \(Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur\)](#)
- [New Nature Economy Report II: The Future of Nature and Business \(Adroddiad Economi Natur Newydd II: Dyfodol Natur a Busnes\)](#)
- [Royal Society \(Y Gymdeithas Frenhinol\)](#)
- [Shifting baseline \(Gwaelodlin newidiol\)](#)
- [Spring watch tips \(Awgrymiadau Springwatch\)](#)
- [Sustainable Development Goals \(Nodau Datblygiad Cynaliadwy\)](#)

- [The economics of ecosystems \(TEEB\)](#) ([Economeg ecosystemau](#)).
- [Value of Tourism and outdoor leisure \(ONS\)](#) ([Gwerth Twristiaeth a hamdden awyr agored](#)).

CWBLHAU MODIWL